



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Felinwnda  
Llanwnda  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL54 5UG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/08/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin yn rhan-amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 25 o ddisgyblion ar y gofrestr. Nid oes yr un disgybl yn y dosbarth derbyn ar hyn o bryd. Fe'u haddysgir gan ddau athro amser llawn ac un rhan amser, mewn dau ddosbarth oedran cymysg.

Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw oddeutu 80% o ddisgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Nid oes yr un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 16% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 1994. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Felinwnda yn 2016-2017 yn £6,874. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,089. Mae Ysgol Gynradd Felinwnda yn y 5ed safle allan o'r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

#### Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un o'r disgyblion yn uchel a dangosant barch mawr at ei gilydd ac at oedolion
- bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n effeithiol
- yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion
- perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu lwyddiannus
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgwr iawn, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

#### Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir ac mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr
- y pennaeth yn cael ei chefnogi'n dda gan aelodau eraill o'r staff sy'n rhannu'r un gwerthoedd ynghylch addysg a lles y disgyblion
- aelodau o'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol
- yr ysgol yn adnabod blaenoriaethau gwella sy'n gwbl addas i anghenion yr ysgol, ac sy'n rhoi'r sylw pennaf i ddeilliannau disgyblion
- yr ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid mewn modd sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion

## Argymhellion

- A1 Gwella medrau rhifedd disgyblion a'u datblygu yn fwy effeithiol ar draws y meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen
- A2 Gwella ansawdd cyflwyniad gwaith y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2
- A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain er mwyn iddynt ddatblygu'n ddysgwyr mwy annibynnol

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos bod eu cyflawniad yn amrywio yn naturiol yn unol â'u gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol ac yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn dangos medrau gwrando da. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio cystrawennau cywir a geirfa eang, bwrpasol wrth drafod eu gwaith. Maent yn hyderus a gwybodus wrth drafod yr hyn sydd ei angen i blanhigion dyfu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn mynegi barn yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio amrywiaeth cynyddol o eirfa addas, er enghraifft wrth drafod bywyd ifaciwi yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn hyderus ddwyieithog.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda rhuglder a mynegiant. Gall y rhan fwyaf drafod eu hoff lyfrau a chymeriadau'n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r disgyblion mwy abl yn trafod eu hoff lyfrau'n aeddfed yn ogystal â'u hoff awduron. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen ar draws y cwricwlwm yn effeithiol, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth o ffynonellau gwahanol yn eu gwersi hanes.

Mae bron pob disgybl ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cyfleu gwybodaeth mewn cyfres o frawddegau syml, gan ddefnyddio prif lythyren ac atalnod llawn gyda pheth cysondeb. Mae'r rhan fwyaf yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir ac yn cyflwyno'u gwaith yn daclus. Gall y rhan fwyaf ddefnyddio ansoddeiriau syml i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu am 'Jac a'r goeden ffa'.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn dda yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn amrywio cystrawen i ddechrau brawddegau yn effeithiol yn y ddwy iaith ac yn treiglo'n gywir ar adegau yn y Gymraeg. Mae rhan fwyaf yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau yn fedrus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu adolygiad o'r ffilm 'Goodnight Mr Tom'. Fodd bynnag, mae ansawdd cyflwyniad gwaith y mwyafrif o'r disgyblion yn dueddol i fod yn flêr.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhif yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosu syml yn dda. Maent yn defnyddio offer ac unedau mesur ansafonol a safonol yn fedrus mewn amrywiaeth o dasgau. Gallant gasglu, cofnodi a chyflwyno data yn gywir, er enghraifft wrth lunio graff i gofnodi'r adar gwahanol fu'n ymweld â'r ardd. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn gyson ar draws y meysydd dysgu.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth gadarn o dermau rhifedd ac yn cymhwyso eu medrau yn dda. Maent yn barod iawn i gynnis atebion, gan rannu eu canfyddiadau yn hyderus, a defnyddio termau mathemategol cywir. Maent yn hyderus yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosio wrth ddatrys problemau geiriol a phroblemau rhesymu rhif. Mae gan lawer ddealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Maent yn cymhwyso'u medrau'n dda iawn ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gofnodi canfyddiadau arbrawf gwyddonol wrth ymchwilio i ba ddefnydd yw'r gorau i gadw rhew rhag ymdoddi. Mae bron pob disgybl yn defnyddio offer ac unedau mesur yn hyderus.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus ac yn annibynnol at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau syml yn bwrpasol. Maent yn defnyddio meddalwedd yn effeithiol i greu graffiau bloc, er enghraifft i gofnodi uchder gwahanol eitemau o fewn y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf â lefel dda o gymhwysedd wrth ddefnyddio'r bysellwrdd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau TGCh yn dda. Maent yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd diddorol trwy ddefnyddio amrywiaeth dda o raglenni. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio meddalwedd i lunio cyflwyniad effeithiol ar yr Ail Ryfel Byd. Maent yn trin data yn effeithiol wrth gyflwyno graff sy'n dangos tymheredd yn yr Arctig dros gyfnod. Mae bron pob disgybl yn hyderus wrth chwilio ar y we am wybodaeth briodol sy'n gysylltiedig â'r themâu y maent yn eu hastudio. Mae dealltwriaeth y disgyblion ar draws yr ysgol o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn amlwg.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae nifer y disgyblion wedi bod yn isel (deg neu lai). Mae canlyniadau un neu ddau ddisgybl, ar adegau, yn gallu dylanwadu llawer ar berfformiad y garfan gyfan. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwylidig ac uwch mewn iaith o gymharu ag ysgolion tebyg wedi amrywio rhwng yn 50% uwch a 50% is. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi bod yn y 50% uwch mewn tair allan o'r pedair blynedd diwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwylidig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu ag ysgolion tebyg, wedi bod yn y 25% uchaf bob blwyddyn. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn Cymraeg a Saesneg wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 50% is. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn y 25% uchaf bob blwyddyn.

## **Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach a'r angen i gadw'n heini. Maent yn cymryd rhan frwdfrydig mewn gwersi chwaraeon, ac yn ystod gweithgareddau clybiau ar ôl ysgol, fel y clwb hoci a beicio.

Mae safon ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un o'r disgyblion yn uchel. Maent yn dangos parch mawr at ei gilydd ac at oedolion. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n effeithiol. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Mae llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gallu egluro'n hyderus yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud eu bod yn cael eu trin gyda pharch. Maent yn gwybod eu bod yn gallu troi at unrhyw oedolyn, ffrindiau neu'r 'Bydis Buarth' am gymorth, pan fo angen.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd priodol i leisio barn a mynegi pryder. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn ystyried sylwadau cyd-ddisgyblion yn briodol ac yn falch o'u hymdrechion wrth godi arian at elusennau fel Plant mewn Angen.

Mae llawer o'r disgyblion yn cyfrannu'n dda i'r gymuned ehangach. Maent yn ymfalchïo yn y cyfle i ddiddanu aelodau 'Clwb Henoed y Felin' ac o gymryd rhan yng nghyngerdd 'Hwyl yr Ŵyl' er budd y ganolfan leol.

Mae lefelau presenoldeb yn dda ac wedi bod naill ai yn yr 50% uwch neu'r 25% uchaf dros y tair blynedd ddiwethaf, o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion, sy'n bodloni holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae athrawon wedi ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd yn llwyddiannus i'r cynllunio, gan ddarparu tasgau cyson i atgyfnerthu'r medrau hyn a medrau TGCh. Yn yr un modd, mae cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd y disgyblion ar draws y meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus trwy drefnu ymweliadau a gwahodd ymwelwyr i'r ysgol. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol, fel ymweld â chanolfan breswyl Glan-llyn, yn cyfrannu'n dda at brofiadau'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gadarn iawn. Mae'r oedolion yn modelu iaith yn effeithiol, a'r cynlluniau gwaith yn sicrhau cymhwysedd priodol mewn medrau llafar, darllen ac ysgrifennu. Mae'r gweithgareddau i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u diwylliant, eu hanes a'u traddodiadau yn amrywiol a diddorol. Mae'r staff yn sicrhau bod y disgyblion yn cymryd rhan gyson mewn cystadlaethau eisteddfodol, mynychu gweithdai gan feirdd, dysgu cloccio a dysgu am ddigwyddiadau hanesyddol pwysig.



Mae'r ysgol yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am ddiwylliannau eraill, fel Botswana ac Awstralia, yn dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae'r pwyllgor eco yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd arbed ynni ac ailgylchu yn addas.

### **Addysgu: Da**

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu lwyddiannus. Mae hyn yn eu galluogi i roi cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda.

Yn y rhan fwyaf o wersi ble mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn rhannu amcanion gwersi yn glir ac yn defnyddio adnoddau buddiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r cyflwyniadau'n fywiog gyda chyflymder da a holi effeithiol. Maent yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau dysgu'n fedrus i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Fodd bynnag, mae tueddiad yng nghyfnod allweddol 2 i or-arwain y disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu'r cyfleoedd i ddisgyblion benderfynu'n annibynnol ar sut i gyflwyno'u gwaith.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith yn ystod y gwersi. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd, ac mae sylwadau'r athrawon yn llyfrau iaith y disgyblion yn nodi llwyddiant ac yn rhoi arweiniad clir iddynt ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Yn yr un modd, mae gweithdrefnau priodol yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu gwaith eu hunain a gwaith eraill.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sy'n cyfrannu'n dda at wella safonau, er enghraifft medrau darllen.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion statudol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd da y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac i sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau

cefnogaeth berthnasol. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da a chaiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni.

Mae'r cydweithio agos sy'n bodoli rhwng yr ysgol a gwasanaethau arbenigol, fel therapyddion iaith, yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a rhieni.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n bodoli ynddi. Mae'n gymuned gynhwysol a gofalgwr iawn, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

Mae pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau parch at wahaniaeth a chydarddoldeb hiliol trwy waith amrywiol yn astudio gwledydd tramor fel Botswana ac Awstralia a chyfrannu at elusennau fel Cymorth Cristnogol.

Er yn hen, mae ansawdd yr adeilad yn dda ac mae maint y dosbarthiadau yn bodloni anghenion ar gyfer nifer y disgyblion. Mae'r manau dysgu allanol wedi eu datblygu mewn modd creadigol er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod sydd ar gael ac i wella profiadau dysgu a chwarae'r disgyblion. Fe wneir defnydd da o'r ganolfan gymunedol gerllaw'r ysgol ar gyfer gwersi addysg gorfforol, ac i gynnal gwasanaethau a chyngherddau i ddiddanu trigolion yr ardal.

Mae ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd da yn yr ysgol, sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae arddangosfeydd symbylol a deniadol o waith athrawon a chyflawniadau a llwyddiannau'r disgyblion, yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, yn creu amgylchedd ddysgu ddiddorol. Maent yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith. Mae safon glanweithdra yn uchel ac mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae safle'r ysgol yn ddiogel.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar 'gynnig addysg sy'n cynorthwyo plant i gyflawni eu llawn botensial'. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Caiff ei chefnogi'n dda gan aelodau eraill o'r staff sy'n rhannu'r un gwerthoedd ynghylch addysg a lles y disgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac mae hyn wedi arwain at safonau cyson dda. Mae'r pennaeth yn rhannu ei hamser rhwng ei rôl reolaethol ac addysgu yn hynod lwyddiannus. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae strwythurau a pholisïau clir ar waith ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac effeithiol.

Fe gynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac maent yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella. Mae agendâu yn sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn eu lle ac yn cynnwys targedau perthnasol i'r staff, sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Ar y cyfan, mae disgygliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a TGCh wedi'u sefydlu'n briodol. Mae argymhellion y Siarter Iaith yn cael sylw amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol ac mae gofynion asesu ar gyfer dysgu yn gwreiddio'n dda.

Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol i'r ysgol. Mae'r aelodau yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, ac yn chwarae rôl briodol wrth reoli perfformiad y pennaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddata cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion. O ganlyniad, mae eu gwybodaeth am sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg, yn dda. Mae hyn oll yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion, wedi gwreiddio'n gadarn ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae'n broses fyw ac effeithiol sy'n galluogi'r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn llwyddiannus.

Mae systemau cadarn i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithiol i'w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perfformiad cymharol yr ysgol yn ofalus, a deilliannau, trefniadau asesu mewnol, craffu ar lyfrau, cynlluniau gwaith ac arsylwi gwersi rheolaidd. Mae'r staff i gyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses o fonitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r modd y mae'r ysgol yn cynnwys barn disgyblion yn nodweddiadol amlwg. Maent yn cael cyfleoedd i ymateb i gwestiynau, ar agweddau fel, 'a yw marcio yn cysylltu gyda'r meini prawf llwyddiant' ac 'a yw sylwadau'r athro o gymorth iddynt i wybod sut i wella eu gwaith'. Mae athrawon yn rhoi sylw teilwng i ymatebion y disgyblion.

Mae pwyslais cryf ar sicrhau bod gan rieni rôl weithredol yn y broses o wneud sylwadau a chynnig gwelliannau. Yn dilyn ymgynghoriad â'r rhieni, fe sefydlwyd clwb gwarchod cyn ysgol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu ac yn manylu'n rhesymegol ar y prif flaenoriaethau. Mae'n ddogfen gryno a chlir gyda nifer addas o flaenoriaethau i weithredu arnynt dros dair blynedd. Mae'r camau gweithredu yn dyrannu cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfrifoldeb monitro a gwerthuso effeithiolrwydd, yn glir. Mae gallu'r ysgol i gynllunio a sicrhau gwelliant yn llwyddiannus, er enghraifft wrth sicrhau cynnydd yn nifer y disgyblion mwy abl sy'n cyflawni'r deilliannau a'r y lefelau uwch mewn iaith.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid mewn modd sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn y profiadau dysgu'n llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol berthynas dda â rhieni ac aelodau o'r gymuned. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn weithgar iawn ac yn cefnogi'r ysgol yn ymarferol ac yn ariannol. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at welliant amlwg yn yr ystod o adnoddau TGCh. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni yn dda am weithdrefnau'r ysgol, drwy ddefnyddio'r wefan, gweplyfr, anfon negeseuon testun a llythyru rheolaidd.

Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. O ganlyniad, mae cyfleoedd da i'r disgyblion gynnal gwasanaethau a chyngherddau yn gyhoeddus. Mae'r partneriaethau i hybu diwylliant Cymreig, fel eisteddfodau a gweithgareddau'r Urdd, yn galluogi'r disgyblion i ymarfer eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol yn dda mewn amgylchedd Cymreig.

Mae trefn effeithiol o gymedroli wedi ei sefydlu gydag ysgolion eraill i gynhyrchu proffiliau pwrpasol a defnyddiol i gynorthwyo athrawon wrth iddynt safoni gwaith y disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion newydd o'r ysgol feithrin wedi eu sefydlu'n gadarn. Yn yr un modd, mae trefniadau pontio gyda'r ysgolion uwchradd lleol hefyd yn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus i'r disgyblion hŷn. Mae'r rhain yn effeithiol wrth helpu i baratoi'r disgyblion yn briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae'r cydweithio sy'n bodoli gydag ysgolion y dalgylch yn fuddiol. Mae disgyblion o'r ysgolion yn dod at ei gilydd yn gyson, er enghraifft er mwyn creu timau ar gyfer cystadlaethau chwaraeon amrywiol. Mae hyn yn datblygu medrau cymdeithasu a chydweithio'r disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Gwneir defnydd da o'u harbenigedd ac mae cyfraniad y cymhorthydd yn effeithiol wrth annog a chefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ac mae hyfforddiant defnyddiol yn cefnogi hyn yn llwyddiannus. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol o ran baich gwaith athrawon ac maent yn derbyn amser digyswllt priodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol, sy'n cael eu rheoli'n dda er mwyn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion at bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg iawn yn y defnydd a wneir o'r ardal allanol a'r ganolfan gymunedol.

Mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol mewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol ac yn cydweithio'n agos o fewn yr ysgol a thu hwnt i rannu arfer dda. Enghraifft dda o hyn yw arsylwi ar sesiynau addysgu'r naill a'r llall a datblygu strategaethau i wella medrau'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr, ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gynnal disgyblion sy'n deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi arwain at welliant amlwg mewn medrau darllen.

O ystyried y safonau da mae disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod. <http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	12	12 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	12	10 83%	2 17%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	12	12 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	12	12 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	12	12 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	12	11 92%	1 8%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	12	12 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	12	12 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	12	10 83%	2 17%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		90%	10%	

	of response s Nifer o ymateb	Agree Cytuno	Disagree Anghytun o	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	12	12 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	12	12 100%	0 0%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	12	12 100%	0 0%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

### Ymateb i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Mr Mervyn Lloyd Jones	Arolygydd Cofnodol
Mr David Owen Jenkins	Arolygydd Lleyg
Ms Meinir Lloyd Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Miss Carys Thomas (Pennaeth)	Enwebai

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



## Rhestr termau – Cynradd

### **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### **Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.